



Pob Swyddog Cyfrifol

26 Mai 2021

Datganiad Blynyddol i'ch rheoleiddiwr

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Rydym yn cadarnhau ein dull lefel uchel o ymdrin â'r datganiad cydymffurfio blynyddol ar gyfer 2021.

Mae Amod B2 o'r Amodau Cydnabod Cyffredinol (Ofqual a CCEA Regulation) a'r Amodau Cydnabod Safonol (Cymwysterau Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i chi, a Chadeirydd eich Corff Llywodraethu, gyflwyno [datganiad blynyddol](#) sy'n nodi a yw eich sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â'ch Amodau Cydnabod ai peidio.

Rydym yn rhagweld agor y ffenestr ar gyfer y datganiad blynyddol yn yr hydref – mis Hydref, fwy na thebyg - ond byddwn yn cadarnhau'r union fanylion yn ddiweddarach yr haf hwn.

Fel yn 2020, rydym yn mabwysiadu dull 3 gwlad eleni gyda Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation sy'n golygu y bydd unrhyw ddata a gyflwynir yn cael ei rannu â'r rheoleiddiwr rydych yn cael eich rheoleiddio ganddo.

Golyga hyn y bydd angen i chi gwblhau un datganiad mewn fformat safonol y cytunwyd arno gan y 3 rheoleiddiwr. Byddwn yn defnyddio platform arolygu Ofqual i gasglu eich ymatebion fel y gwnaethom y llynedd – bydd y rhan fwyaf ohonoch eisoes yn gyfarwydd â phlatform Citizen Space, Ofqual a ddefnyddir ar gyfer ymgynghoriadau ac arolygon sefydliadau dyfarnu. Cofiwch, mae'r ddolen arolwg yn breifat a dim ond ar gael i sefydliadau dyfarnu.

Fe gofiwch, y llynedd, yn hytrach na'r dull arferol o ofyn a ydych yn cydymffurfio â'r holl Amodau ai peidio, fod gennym ddatganiad symlach gyda chwestiynau â ffocws. Teimlwn y byddai'n werthfawr dychwelyd at y dull safonol o ofyn i chi ystyried eich cydymffurfiaeth yn erbyn yr holl amodau perthnasol eleni. Byddwn hefyd yn cynnwys rhai cwestiynau penodol ynghylch meysydd allweddol, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio drwy'r manylion ynghylch y mathau o gwestiynau a phynciau y mae gennym ddiddordeb ynddynt ar y cyd. Byddwn yn gallu rhoi mwy o wybodaeth cyn rhyddhau.

Yn unol â'r llynedd, bydd angen i'ch Cadeirydd lofnodi eich datganiad, ond ni fyddwn yn gofyn iddynt fewngofnodi i blatfform yr arolwg i wneud hynny. Mae'r holl drefniadau llywodraethu arferol eraill yn berthnasol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am broses 2021, atebwch yn uniongyrchol i'r llythyr hwn ar y Porth neu cysylltwch â'ch rheoleiddiwr perthnasol.

Yn gywir,




Yun Ding

Cyfarwyddwr Cyswllt, Safonau ar gyfer Cyflenwi a Pherfformiad
Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol



Denver Davies

Pennaeth Monitro a Chydymffurfio, Cymwysterau Cymru



David Crosbie

Rheolwr Rhaglen, CCEA Regulation